



Ebrill 2005

Ymateb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i'r ymgynghoriad ar Gynigion Adolygu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus gan Ofcom

1. Cefndir

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi bod yn ymgyrchu dros ddyfodol yr iaith Gymraeg ers 1963, ac o'r cychwyn cyntaf roedd yn ymwybodol o'r angen i ehangu defnydd y Gymraeg i feysydd newydd i gadw'r iaith yn fodern ac yn berthnasol i'r oes. Dyna pam fu'r Gymdeithas mor flaenllaw wrth ymgyrchu dros sianel deledu Gymraeg yn y 1970au a dechrau'r 1980au.

Ymfalchïwn yn y ffaith bod S4C, ers ei sefydlu ym 1982 wedi blynyddoedd o frwydo, wedi chwarae rhan allweddol mewn gwneud y Gymraeg yn iaith naturiol, byw, cyfoes i genhedlaeth newydd o Gymry.

Mae Cymdeithas yr Iaith yn benderfynol o sicrhau dyfodol disglair i ddarlledu Cymraeg, gan gymryd mantais llawn o'r cyfleoedd newydd sy'n ymddangos wrth i dechnoleg cyfathrebu ddatblygu.

Wrth ystyried dyfodol S4C a darlledu'n Gymraeg, ein prif bryder yw y bydd y Gymraeg yn cael ei gadael ar ôl unwaith eto, a'i gweld fel rhywbeth sy'n perthyn i oes o'r blaen. Gyda gwasanaethau iaith Saesneg yn cael eu lawnsio'n feunyddiol ar gyfryngau newydd – megis sianeli digidol, teledu rhyngweithiol, teledu ar-alw, darlledu i ffonau symudol a dros y we – mae peryg i'r Gymraeg gael ei ynysu mewn ghetto technolegol tra bod gweddill y byd wedi symud ymlaen.

Rydym am ddatblygu strwythur newydd i ddarlledu Cymraeg, wedi ei gyllido'n gywir i ymateb i'r her hon.

2. Cynigion Ofcom ar ddyfodol S4C

2.1 Anghytunwn yn sylfaenol gyda'r cynnig y dylai BBC Cymru lyncu S4C yn ei gyfanrwydd. Credwn bod annibynniaeth y sianel yn hollbwysig i gadw ffocws ar ddiwallu anghenion y gynulleidfa Gymraeg. O'i ymgorffori tu fewn i unrhyw sefydliad arall, bydd gwrthdaro anochel gyda galwadau cyllidol a golygyddol gwasanaethau eraill y sefydliad hwnnw. Mae eisoes prinder lluosogrwydd ac amrywiaeth yn y ddarpariaeth ddarlledu Cymraeg, a gwrthwynebwn unrhyw symudiad at leihau'r lluosogrwydd yna ymhellach.

2.2 Mae trydydd cynnig Ofcom ynglyn â sefydlu Cyhoeddwr Gwasanaeth Cyhoeddus (PSP) iaith Gymraeg i Gymru yn achosi pryder hefyd. Ni welwn budd mewn cynnwys elfen masnachol mewn darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, ac ni welwn chwaith sut gallai gwmni masnachol rhedeg gwasanaeth teilwng i siaradwyr Cymraeg pan fyddai ystyriaethau eraill ganddynt hefyd, megis buddiannau cyfranddalwyr neu diddordebau busnes eraill.

Mae'n amheus gennym hefyd faint o gwmnïau neu chyrrff gwahanol fyddai â'r gallu a dealltwriaeth i redeg gwasanaeth gynhwysfawr Gymraeg, ac felly cwyd y cwestiwn o ba mor gystadleuol allai tendr o'r fath fyth bod.

Ymhelaethwn isod ynglyn â'r angen i sicrhau atebolrwydd, ond o dan model y PSP, prin yw'r atebolrwydd wedi i gwmni ennill rhyddfrint y gwasanaeth, ac felly dim ond unwaith pob 10 mlynedd mae modd dylanwadu ar gyfeiriad a chynnwys y darlledwr. Er y byddai rheoleiddiwr yn cadw llygad ar y PSP, tueddiad presennol y rheoleiddwyr yw i rhoi gymaint o rhyddid â phosib i'r rhai dan eu gorchwyl, ac felly maent yn annhebygol o ymyrryd oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn eu gorfodi i wneud hynny. Yn y cyfamser, gallai'r wasanaeth Cymraeg ddirywio'n enbyd, tu allan i reolaeth y gwylwyr.

Am y rhesymau hyn, gwrthwynebwn y syniad o roi'r gwasanaeth darlledu Cymraeg allan i dendr ar ffurf PSP. Serch hynny, gwelwn rhinwedd mewn dod â syniadau a dulliau dosbarthu newydd at y bwrdd i gyfoethogi darlledu Cymraeg, ond credwn bod modd caniatáu i hynny ddigwydd o fewn y strwythur bresennol, heb elfennau cystadleuol a masnachol y PSP.

- 2.3 Er nad yn berffaith, mae'n ddiamau bod strwythur presennol S4C yn un llwyddiannus ar y cyfan, a bod y sianel wedi gwneud cyfraniad enfawr a gwerthfawr i ddiwylliant Cymru a'r Gymraeg. Nodwn ein gwerthfawrogiad o hynny.

Serch hynny, mae'r byd darlledu wedi newid yn ddirfawr ers sefydlu S4C ym 1982, ac mae'r newidiadau yna yn dal i drawsnewid y maes heddiw, ac i'r dyfodol. Mae hyn yn gosod sawl her i ddyfodol llewyrchus S4C, ond o baratoi ar eu cyfer, sawl cyfle hefyd.

Mae Cymdeithas yr Iaith am weld S4C sydd yn:

- gryf ac annibynnol
- ymateb i anghenion y cymunedau mae'n gwasanaethu, ac yn annog eu cyfrannogaeth
- atebol i'w gwylwyr
- manteisio ar ddatblygiadau technolegol i sicrhau lle i'r Gymraeg ym myd darlledu y dyfodol

Y dyfodol digidol

- 2.3.1 Tra bod darlledwyr Saesneg yn trawsnewid eu dulliau gweithio, cyfathrebu a dosbarthu cynnwys yn sgil y chwyldro digidol, mae S4C a darlledu Cymraeg yn gyffredinol wedi cael ei adael ar ôl, bron iawn yn yr un sefyllfa ag oeddynt ym 1982. Er bod S4C wedi lawnsio gwasanaeth digidol, gwnaethpwyd hynny heb gyllid ychwanegol.

Mae annhegwch sefyllfa cyllido S4C yn amlwg o ystyried iddo ddiodeff toriadau (o gymharu ag eraill) tair gwaith drosodd:

- Incwm hysbysebu yn lleihau wrth i bobl troi at ddigidol, gyda S4C yn colli'r rhai oedd yn gwyllo rhaglenni Saesneg Channel 4 ar y gwasanaeth analog. Gyda Chymru'n troi at ddigidol yn llwyr ym 2008, bydd yr incwm hysbysebu y nesa peth at ddim o fewn tair mlynedd.
- Dim cynnydd yng ngrant S4C gan lywodraeth canolog i gymryd i ystyriaeth y newidiadau digidol, fel cafodd y darlledwyr eraill.
- Lleihad aruthrol mewn termau real mewn gwerth cyfraniad BBC Cymru i'r sianel, o'i gymharu gyda'u gwariant ac oriau darlledu yn Saesneg.

I sicrhau bod S4C yn gallu manteisio ar y cyfleoedd newydd ym maes darlledu digidol, galwn am gynnydd sylweddol yn y grant canolog i wneud yn iawn am y diffyg ariannu mae wedi diodeff dros y blynyddoedd diweddar, o gymharu gyda darlledwyr eraill. Yn ogystal, rhaid ailddiffinio perthynas BBC Cymru ag S4C (gweler pwynt 2.3.4 isod).

Amlinellwn syniadau ar gyfer ariannau S4C yn y tymor hir yn adran 3.

Atebolrwydd

2.3.2 Un cwyn rheolaidd a glywn am S4C yw nad yw'n llawn adlewyrchu ystod dyheadau ac anghenion ei gynulleidfa. Mae teimlad ei fod yn gorff ynysig, aruchel, sy'n darlledu *at bobl*, yn hytrach nag *ar eu cyfer*. Dylai'r darlledwr cenedlaethol Cymraeg fod yn atebol i bobl Cymru, yn hytrach na fod yn atebol i'w hun.

Nododd llywodraeth Prydain yn eu papur gwyrdd ar ddyfodol y BBC nad oedd yn bosibl i lywodraethwyr y BBC gynrychioli'r cyhoedd oedd yn talu'r drwydded deledu, ac hefyd i gynrychioli ac amddiffyn y BBC yr un pryd. Teimlwn fod yr egwyddor hon yr un mor berthnasol i Awdurdod S4C.

Hoffwn weld Awdurdod S4C yn cael ei wahanu'r glir oddi wrth S4C y sianel, fel corff annibynnol i gynrychioli'r gwylwyr Cymraeg, gyda'u haelodau wedi'u dewis trwy ddulliau democrataidd. Byddent yn gyfrifol am broses parhaus o gyfathrebu dwy-ffordd gyda'r gynulleidfa Gymraeg, gan wneud ymchwil i anghenion a dymuniadau'r gwylwyr, a sicrhau adlewyrchiad llawn o'r holl gymunedau a charfannau amrywiol yn ein cymdeithas yn Gymraeg, gan rhoi cyfarwyddid pendant i fwrdd reoli sianel S4C, a monitro eu perfformiad ar sail y cyfarwyddid yna.

Trwy hyn bydd modd creu ymdeimlad o berchnogaeth ar y sianel gan y gynulleidfa, a ffordd clir a hawdd iddyn nhw ddylanwadu ar ei chynnwys.

Gwasanaethu'r gymuned

2.3.3 Pryderwn am y duedd i ganoli cyfraniadau gan y sector annibynnol ymysg llond llaw o gwmnïau mawr, tuedd sy'n cael ei annog gan S4C ar hyn o bryd.

Canlyniad anochel polisi o'r fath yw i leihau amrywiaeth barn a gweledigaeth yn arlwy'r sianel, a chyfyngu sgiliau a chyfraniad S4C i'r economi leol i rai ardaloedd o'r wlad yn unig (a rheiny, yn aml iawn, tu allan i ardaloedd cynulleidfa naturiol y sianel). Mae risg ychwanegol o greu unigolion a chwmnïau rhy fodlon eu byd. Llyffethair, nid mantais, fyddai hyn i'r sianel.

Dylai S4C fod yn weithredol yn hybu ystod eang o gyfrannwyr amrywiol i'r sianel. Mae technoleg a dulliau gweithio newydd yn golygu nad oes rhaid i raglenni teledu gael eu cynhyrchu mewn canolfannau mawrion – i'r gwrthwyneb, disgwyliwn gweld ein cyfryngau yn ymwreiddio yn ein cymunedau, a thrwy hynny mynegi diwylliant cymunedol yn llawn.

Yn ogystal, dylid manteisio ar ddulliau ac offer newydd ym myd teledu i edrych ar y posibilrwydd o greu rhaglenni mewn cymunedau lleol gan gymunedau lleol, yn hytrach na dibynnu ar ymweliadau achlysurol gan ddarlledwyr proffesiynol.

Ac er nad yw S4C ynddo'i hun yn gyflogwr uniongyrchol mawr iawn, ni welwn rheswm erbyn hyn dros ei leoli yng Nghaerdydd, sydd ond yn cyfrannu at y teimlad o ddieithrwrch ymysg ei chynulleidfa.

Perthynas y BBC ag S4C

2.3.4 Nodwn, gydag eraill, bod lefel cyfraniad y BBC i deledu Cymraeg wedi cwmpo yn aruthrol mewn termau real ers sefydlu'r sianel ym 1982. Nid yw gwariant y BBC ar raglenni Cymraeg wedi codi'n unol gyda'u gwariant gyffredinol na'u gwariant ar ddarlledu cyfrwng Saesneg. Fel canran o'u holl oriau darlledu, hefyd, mae'r 10 awr wythnosol yn Gymraeg yn bitw o fach o gymryd i ystyriaeth yr holl wasanaethau teledu Saesneg newydd lawnsiwyd gan y BBC dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae angen cynyddu gwerth cyfraniad y BBC i deledu Cymraeg i lefel sy'n cyfateb â gwerth eu cyfraniad fel yr oedd ym 1982, o *leiaf*, a sicrhau mecanwaith sy'n golygu bod y cyfraniad

yn gyson yn adlewyrchu dyletswyddau darlledu Cymraeg y BBC, yn hytrach na fod yn lefel penodedig ar sail oriau sy'n debyg o ddyddio'n gyflym.

Ymhellach, credwn bod angen gweddnewid sail y cyfraniad yna i fod yn un sy'n seiliedig ar werth y cyfraniad yn hytrach nag oriau'r cyfraniad, a rhoi rhyddid i S4C i ddewis yr hyn sy'n ddymunol iddyn nhw.

Mae'r byd darlledu yn newid yn gyflym, ac efallai nad oriau o deledu yw cyfraniad mwyaf gwerthfawr y BBC i ddarlledu Cymraeg o reidrwydd. Er enghraifft, gallai S4C fanteisio ar fuddsoddiad sylweddol y BBC mewn adnoddau rhyngrwyd, er mwyn lledaenu rhaglenni Cymraeg ar y we. Trwy ddulliau creadigol o gyd-weithio fel hyn, gwelwn fod modd cadw darlledu Cymraeg yn berthnasol a modern yn yr amgylchfyd darlledu newydd.

3. Trefn Ddarlledu Cymreig

Gyda'r maes darlledu masnachol yn cael ei ddadroleiddio'n llwyr i bob pwrpas, yn sgil deddfau cyfathrebu y blynyddoedd diweddar, gwelwn fod mwy o angen nag erioed i sicrhau dyfodol cryf i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus Cymreig a Chymraeg.

Mae Cymdeithas yr Iaith am weld sefydlu trefn ddarlledu annibynnol i Gymru, fel bod cymunedau Cymru yn cael eu gwasanaethau'n llawn gan y cyfryngau yn y ddwy iaith.

Fel rhan o'r gyfundrefn hon, yn hytrach na bod tâl trwydded deledu ar lefel Prydeinig, gwelwn yr angen am dâl trwydded Cymreig, yn daladwy i Awdurdod Darlledu Cymru. Byddai'r awdurdod wedyn yn dosrannu'r arian ymysg darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus Cymru mewn modd sy'n adlewyrchu anghenion cynulleidfaoedd amrywiol y genedl.

Byddai trefn o'r fath yn gweddnewid dull talu am raglenni'r BBC yng Nghymru. Yn hytrach na fod yn gangen o gorfforaeth Prydeinig, byddai BBC Cymru yn aelod o gorfforaeth ffederal, gan dderbyn eu siâr o'r dâl trwydded yn uniongyrchol. Byddai hyn yn troi trefn ariannu presennol y BBC ar ei phen, gan rhyddhau BBC Cymru i ganolbwyntio ar anghenion cynulleidfaoedd yng Nghymru, yn hytrach na'r sefyllfa bresennol o orfod dilyn dewisiadau Llunain gyda rhai rhaglenni Cymreig wedi eu gwasgu i'r amserlenni pryd mae hynny'n bosib. Yn lle'r BBC ar lefel Prydeinig yn rhoi arian i BBC Cymru am wasanaeth Cymreig, byddai BBC Cymru yn eu hariannu nhw eu hunain, gan dalu'r BBC yn ganolog am y rhaglenni a gwasanaethau Prydeinig y dymunent ddarlledu yng Nghymru.

Golyga hyn hefyd sicrwydd cyllidol i S4C ar gyfer y dyfodol. Byddai Awdurdod Darlledu Cymru yn rhoi cyfran o'r dâl drwydded Cymreig yn uniongyrchol i S4C, i'w gynorthwyo i ddatblygu ymhellach a chadw darlledu Cymraeg ar flaen y gad wrth i ddatblygiadau technolegol gweddnewid y maes darlledu. Byddai cyfateb gwerth cyfraniad Cymraeg y BBC i S4C hefyd yn mynd yn uniongyrchol i S4C, gan rhyddhau S4C i ddefnyddio'r arian fel gwelant yn dda, gan gomisynu rhaglenni neu gwasanaethau yn ôl gan BBC Cymru lle mae hynny'n ddymunol.

Ond ymhellach na hynny, gwelwn gyfleoedd i ariannu prosiectau cyffrous newydd yn y Gymraeg tu allan i ddeuopoli presennol BBC Cymru ac S4C. Gyda dadroleiddio radio masnachol, prin yw'r Gymraeg sydd i'w chlywed ar donfeddi lleol. Gallai'r dâl trwydded Cymreig gyfrannu at gefnogi darlledu radio lleol a chymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hefyd cyfleoedd i fanteisio ar ddulliau newydd o gyfathrebu, megis teledu ar lefel lleol iawn, neu phrosiectau rhyngweithiol ar y Rhyngrwyd, a chefnogi'r rhain yn Gymraeg lle nad yw'r farchnad rydd yn debygol o wneud.

Rydym yn ymwybodol bod dyfodol ansicr i dâl trwydded ar sail perchnogaeth set deledu yn y tymor hir, gan bod technoleg newydd yn disodli'r angen am set deledu i raddau, ond glynwn at yr egwyddor o ddull ariannu i ddarlledu cyhoeddus Cymreig sy'n annibynnol o drethiant

uniongyrchol, i sicrhau annibyniaeth golygyddol i'r darparwyr, a lleihau temtasiwn gwleidyddion i ymyrryd mewn trefn gyfathrebu sydd yn eiddo'n uniongyrchol i bobl Cymru.

4. Gofynion darlledu cenedlaethol ITV1

Prif nod y cyfraniad hwn i'r broses ymgynghori yw datgan ein hymateb i gynigion Ofcom ar ddyfodol S4C. Serch hynny, nodwn y cynigion ar gyfrifoldebau ITV1 i ddarparu rhaglenni cenedlaethol i Gymru.

Er ein bod yn dadlau yn y ddogfen hon o blaid mwy o gynnyrch Cymreig (ac ar lefel mwy lleol na hynny hefyd) gan BBC Cymru, yn Gymraeg a Saesneg, ni ddylai hyn fod yn esgus i leihau darpariaeth Cymreig ITV1. I'r gynulleidfa di-Gymraeg, yn enwedig, gallai gyfyngu ar eu cyfleoedd i weld rhaglenni sy'n berthnasol iddyn nhw a'u cymunedau, gan amrywiaeth o ddarparwyr.

Ofnwn hefyd y byddai unrhyw toriadau yng nghyfrifoldebau Cymreig ITV1 yn golygu crebachu ITV Wales yn gyffredinol, gan amharu ar eu gallu i gynhyrchu rhaglenni Cymraeg o safon i S4C.